

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

11 Mai 2018

Annwyl Kirsty

Ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ('y Pwyllgor') yn cynnal ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith. Amgaeaf gopi o'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ein hymchwiliad bellach wedi dod i ben a byddwn yn cwblhau'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn fuan.

Un o'r themâu sy'n ymddangos yn y dystiolaeth yw effaith beichiogrwydd a mamolaeth ar fenywod sy'n gweithio yn y proffesiwn addysgu. Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r canlynol:

1. Rhoi sylwadau ar ganfyddiadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a ganfu fod 7% o athrawon yng Nghymru yn teimlo eu bod wedi'u gorfodi i adael eu swyddi ar ôl cael plant (ychydig yn is na chyfartaledd y DU).
2. Rhoi manylion am unrhyw ganllawiau sydd ar gael i gyrrff llywodraethu a thimau arwain ysgolion ar recriwtio a chadw staff yn ystod beichiogrwydd a




chyfnod mamolaeth, gan gynnwys ymateb i geisiadau am weithio'n rhan amser a/neu weithio'n hyblyg.

3. Amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y proffesiwn addysg, o ran annog mwy o ddynion i'r byd addysg a sicrhau bod menywod (yn enwedig menywod beichiog a mamau) yn cael eu cefnogi o ran dilyniant gyrfa ac i fynd i swyddi arwain.
4. Rhoi sylwadau ar y pryder gan UCAC fod y trefniadau presennol ar gyfer taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR):
 - yn rhwystr i athrawon rhan amser rhag cymryd y cyfrifoldebau hyn, ac
 - y gallant atal rhywun oedd â chyfrifoldebau ychwanegol cyn mynd ar gyfnod mamolaeth, ond sy'n dychwelyd i weithio'n rhan amser ar ôl cyfnod mamolaeth, rhag cadw'r cyfrifoldebau hynny.
5. I ba raddau y mae'r adolygiad presennol o gyflog ac amodau athrawon yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebier gan famau sy'n dymuno dychwelyd i addysgu ar ôl cyfnod mamolaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn **dydd Gwener 25 Mai** fan bellaf er mwyn llywio cam nesaf ein hymchwiliad.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

